# Bwletin y Farchnad HCC

Gorffennaf 2024

**Mae Defra wedi rhyddhau ffigurau trwybwn lladd-dai'r DU ar gyfer mis Mehefin yn ddiweddar a ddatgelodd fod trwybwn defaid yn sylweddol is na lefelau'r flwyddyn flaenorol hyd yma yn 2024, ond mae lefelau lladd gwartheg fel y disgwyl. Mae Bwletin y Farchnad y mis hwn yn edrych ar y ffigurau hyn yn fanylach.**

**Glesni Phillips - Swyddog Gweithredol Deallusrwydd, Dadansoddi a Mewnwelediad Busnes**



## GWARTHEG

Yn ystod hanner cyntaf (H1) 2024, cyrhaeddodd *cyfanswm* trwybwn y gwartheg mewn lladd-dai'r DU **1.4 miliwn pen** yn ôl ffigurau diweddaraf Defra. Mae hyn yn cynrychioli cynnydd o 1% (neu 15,900 pen) o'i gymharu â H1 2023 ac mae hefyd 1% yn uwch na'r cyfartaledd 5 mlynedd ar gyfer yr un cyfnod. Eleni, roedd y twf blwyddyn ar flwyddyn hwn yn cael ei sbarduno'n bennaf gan gynnydd yn nifer y gwartheg dethol.

Cynyddodd trwybwyn *gwartheg dethol* yn H1 2024 2% flwyddyn ar flwyddyn, gan wneud cyfanswm o 1.1 miliwn pen, sydd hefyd 3% yn uwch na H1 2022. Roedd niferoedd heffrod yn arbennig o gadarn o fewn y categori cyntaf, gan gyrraedd 430,000 pen - cynnydd nodedig o 5% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae'r cynnydd hwn yn nhrwybwn heffrod, sydd wedi'i arsylwi yn ystod y blynyddoedd diwethaf, bellach yn cyfrif am gyfran gynyddol o drwybwn gwartheg dethol. Yn H1 2021, roedd heffrod yn cyfrif am 38% o wartheg dethol a laddwyd, ac fe gododd i 41% yn 2024. Wrth i'r fuches wartheg yn y DU barhau i ddirywio, ni fydd cynnydd yn nhrwybwn heffrod yn gwneud fawr ddim i wyrdroi'r duedd hon.

Cynyddodd trwybwn bustych o 1% i 529,000 pen, gan gyfrif am 51% o wartheg dethol a laddwyd, i lawr o 53% yn 2021. Awgrymodd dadansoddiad diweddar o ddata poblogaeth gwartheg BCMS bod disgwyl cyflenwad dethol cynyddol yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn, ond rhagwelir y bydd y cyflenwad yn tynhau wrth i'r flwyddyn fynd yn ei blaen oherwydd bod llai o anifeiliaid ar gael.

Dangosodd niferoedd *gwartheg llawn-dwf* ychydig o newid flwyddyn ar flwyddyn, gyda thrwybwn 0.2% yn is na H1 2023 ar 299,800 pen. Mae prisiau pwysau marw gwartheg difa wedi bod o dan lefelau'r flwyddyn flaenorol drwy gydol 2024 hyd yn hyn, ac felly mae'n debyg na fyddai'r duedd hon wedi annog cyflwyno unrhyw niferoedd ychwanegol o wartheg difa. O ystyried trwybwn a phwysau carcasau, roedd cyfanswm cynhyrchiant cig eidion a lloi yn y DU ar gyfer H1 2024 yn sefyll ar 458,000 o dunelli, sydd 1% yn uwch na'r lefelau a gofnodwyd ar gyfer H1 2023 a 2022.





## DEFAID

Cyfanswm nifer y defaid a'r ŵyn a broseswyd mewn lladd-dai yn y DU yn ystod H1 2024 oedd **6.1 miliwn pen**, gan nodi gostyngiad sylweddol o 10% (neu 699,200 pen) ers y flwyddyn flaenorol, wedi'i sbarduno gan ostyngiadau yn nifer y ŵyn a'r defaid llawn-dwf.


Roedd nifer yr *ŵyn* dethol a laddwyd yn H1 i lawr 9% (neu 564,400 pen) flwyddyn-ar-flwyddyn ar 5.4 miliwn pen - sydd hefyd 6% yn is na lefelau H1 2022. Er gwaethaf niferoedd lladd uwch ym mis Ionawr a mis Chwefror o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, gwelwyd lefelau'n sylweddol is yn y pedwar mis wedyn nag yn 2023. Cynyddodd niferoedd rywfaint ym mis Mawrth oherwydd y galw o amgylch y Pasg a Ramadan, ond mae Ŵyn Tymor Newydd wedi bod yn arafach yn cael eu cyflwyno yn gyffredinol, gan arwain at niferoedd 5% yn is na'r cyfartaledd 5 mlynedd. Oherwydd tueddiadau cyflenwi naturiol yn y DU, mae cyflenwad brig fel arfer yn digwydd yn ail hanner y flwyddyn, gyda niferoedd yn cyrraedd tua 6.3 miliwn pen yn H2 y llynedd. O ystyried y praidd bridio benywaidd llai a gofnodwyd yn yr arolwg mis Rhagfyr, disgwylir i'r nifer o ŵyn yn 2024-25 fod yn llai na'r flwyddyn flaenorol, gan arwain at ostyngiad cyffredinol yn y niferoedd.

Roedd trwybwn *defaid llawn-dwf* yn H1 yn sylweddol is na lefelau'r flwyddyn flaenorol, i lawr 16% i 688,600 pen, sef y lefel isaf a gofnodwyd ers H1 2020. O ganlyniad, mae cyfanswm cyfaint cig defaid a gynhyrchwyd yn H1 2024 8% yn is na lefelau'r flwyddyn flaenorol, sef 129,400 tunnell.




## MOCH

Roedd *cyfanswm* trwybwn moch mewn lladd-dai yn y DU yn H1 2024 yn debyg i lefelau'r flwyddyn flaenorol ar **5.1 miliwn pen**, i lawr 1% (neu 48,500 o ben). O'i gymharu â'r cyfartaledd 5 mlynedd (2019-2023) ar gyfer H1, mae'r lefel trwybwn gyfredol 7% yn is. Rhagwelwyd cyflenwad tynn ar gyfer y flwyddyn oherwydd dirywiad yng nghenfaint magu'r DU yn dilyn heriau o fewn y sector. Mae cynhyrchiant cig moch ar gyfer y flwyddyn hyd yma 1% o flaen y llynedd ar 461,900 tunnell, wedi'i briodoli i bwysau cyrff rhywfaint yn ysgafnach.




**Beth mae hyn yn ei olygu i'r diwydiant?**
**Bydd y gadwyn gyflenwi cig coch yn wynebu newidiadau mewn lefelau cyflenwad yn y tymor byr, gan ragweld cynnydd mewn gwartheg a gostyngiad mewn defaid. Bydd y tueddiadau canlyniadol mewn prisiau fferm yn dibynnu'n helaeth ar sut mae'r newidiadau hyn mewn cyfaint cyflenwad yn rhyngweithio â lefelau galw.**

# Crynodeb Misol y Farchnad

## GWARTHEG

### Prisiau – wythnos yn dod i ben 13 Gorffennaf

Y prisiau pwysau marw cyfartalog yng Nghymru a Lloegr ar gyfer bustych oedd **479.6p/kg**. Roedd hyn:


- + 2.2c ar yr wythnos flaenorol,
- 12.2c yn uwch na lefelau'r flwyddyn flaenorol.


Roedd y prisiau pwysau marw ar gyfer categorïau gwartheg eraill fel a ganlyn -

- Heffrod: 477.4c/kg (+0.3c ar yr wythnos),
- Teirw ifanc: 471.5c/kg (+1.0c ar yr wythnos), a
- Buchod difa: 360.2c/kg (+1.3c ar yr wythnos).

### Trwybwn – Mehefin 2024

- Cyfanswm y trwybwn gwartheg mewn lladd-dai yn y DU = 213,100 pen – i lawr 7% ar y flwyddyn.
- Cyfanswm y trwybwn gwartheg dethol = 163,000 pen – i lawr 6% ar y flwyddyn.
    - ➢ *bustych -7%, heffrod -3%, a theirw ifanc +20%.*
- Cyfartaledd pwysau carcasau gwartheg dethol = 345.3kg (+1.8kg ar y flwyddyn).
- Trwybwn gwartheg llawn-dwf = 45,000 pen – i lawr 10% ar y flwyddyn.




## DEFAID

### Prisiau – yr wythnos yn dod i ben 13 Gorffennaf

Roedd y pris pwysau marw ar gyfer ŵyn ym Mhrydain yn **654.6c/kg** ar gyfartaledd. Roedd hyn:

- - 33.1c ar yr wythnos flaenorol


Cyrhaeddodd y niferoedd a ddaeth ymlaen 39,740. Roedd hyn:


- + 7% ar yr wythnos flaenorol, a
- - 13% o'i gymharu â lefelau'r flwyddyn flaenorol.

> ***Noder:*** *Oherwydd newid ym methodoleg arolwg pwysau marw Prydain Fawr (o 25/11/2023) rydym yn argymell bod yn ofalus wrth wneud cymariaethau hanesyddol.*

### Trwybwn – Mehefin 2024

- Cyfanswm y trwybwn defaid mewn lladd-dai yn y DU= 985,100 pen – i lawr 18% ar y flwyddyn.
- Trwybwn ŵyn = 866,000 pen – i lawr 19% ar y flwyddyn.
- Pwysau carcas ŵyn cyfartalog = 19.8kg (+0.2kg ar y flwyddyn).
- Trwybwn mamogia a hyrddod difa = 119,100 pen – i lawr 17% ar y flwyddyn.




## MOCH

### Prisiau – yr wythnos yn dod i ben 6 Gorffennaf

Roedd Pris Mochyn Cyfan Manyleb yr UE (APP) ym Mhrydain Fawr yn **212.9c/kg**. Roedd hyn:

- + 0.2c ar yr wythnos flaenorol,
- - 9.9c o'i gymharu â lefelau'r flwyddyn flaenorol,
- 32.2c yn uwch na'r cyfartaledd 5 mlynedd (cyfartaledd 2018-22: 180.6c/kg).

### Trwybwn – Mehefin 2024

- Cyfanswm y trwybwn moch mewn lladd-dai yn y DU = 805,600 pen – i lawr 3% ar y flwyddyn.
- Trwybwn moch heb fagu = 790,700 pen – i lawr 3% ar y flwyddyn.
- Pwysau carcas moch heb fagu cyfartalog = 89.8kg (+1.6kg ar y flwyddyn)
- Trwybwn hwch a baedd = 14,900 pen – i lawr 14% ar y flwyddyn.

